



Newyddlen Pont Llannerch



Ffigur 1 - Darlun 3D o'r dyluniad arfaethedig ar gyfer pont newydd Llannerch, fel y gwelir o'r awyr o ochr ddeheuol y bont (Trefnant / Bodfari), yn edrych tua'r gogledd

Pwrpas y newyddlen hon

Cyhoeddir y newyddlen hon gan Gyngor Sir Ddinbych. Ei nod yw sicrhau fod trigolion a busnesau lleol a phartïon eraill sydd â diddordeb yn cael y wybodaeth ddiweddaraf ar gynnydd ein prosiect ar Bont Llannerch. Ein bwriad yw cyhoeddi newyddlen pryd fydd gennym ddiweddariadau i'w rhannu, fel eich bod yn gwybod beth ydym wedi gwneud, beth ydym yn bwriadu ei wneud nesaf, a chyfleoedd i chi gymryd rhan yn natblygiad y prosiect hwn.

Yn y rhifyn hwn, byddwn yn rhoi gwybod i chi beth sydd wedi digwydd ers y newyddlen ddiwethaf y bu i ni ei hanfon yn y Gwanwyn 2023.

Y wybodaeth ddiweddaraf am y prosiect: beth sydd wedi bod yn digwydd?

Ers i ni gyhoeddi ein newyddlen ddiwethaf:

Mae'r dewisiadau dylunio wedi cael eu harchwilio:

Bu i'r tîm archwilio amryw o bosibiliadau ond yn y diwedd penderfynwyd ar ddyluniad sydd i'w weld yn yr argraff arlunydd ar frig y newyddlen ac yn y llun isod. Mae'r dyluniad cychwynnol yn edrych yn wahanol i'r bont flaenorol, fodd bynnag, mae'n rhaid i ni gydymffurfio â safonau dylunio modern a sicrhau y bydd y bont yn ddiogel mewn blynyddoedd i ddod. Mae'n rhaid i'r bont fodloni gofynion Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd ac i'r perwyl hwn bydd yr arglawdd newydd o ochr Tremeirchion yn cynnwys ceuffosydd cymorth llifogydd. Cydnabuwyd o'r dechrau y byddai hwn yn brosiect cymhleth ond mae'r realiti wedi dangos efallai bod hyn wedi bod yn danddatganiad, ac mae wedi cymryd llawer iawn o waith i gyrraedd y pwynt hwn.

Bwriedir i'r argraff arlunydd ddangos dyluniad y bont yn unig. Bydd y canlyniad terfynol yn cynnwys mwy o lystyfiant a dylai gyd-fynd â'r tirlun lleol.



Ffigur 2 - Darlun 3D o'r dyluniad arfaethedig ar gyfer pont newydd Llannerch, fel y gwelir o ochr Tremeirchion, yn edrych i gyfeiriad Trefnant

Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu'r prosiect ar gyfer 2024-2025

Cefnogir y cynllun hwn gan Grant Llywodraeth Cymru o dan y fenter Ffyrdd Cydnerth. Mae hyn yn golygu eu bod wedi ariannu cam dylunio manwl y gwaith a byddant yn ein cefnogi ni yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol hefyd. Golyga hyn y bydd oddeutu £1 miliwn wedi dod o'r incwm hwn. Felly, gall Cyngor Sir Ddinbych barhau i weithio gyda phartneriaid yn cynnwys Dŵr Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru ac adran gynllunio'r Cyngor i gwblhau cam dylunio'r bont newydd.

Mae ymchwiliadau gwaith tir wedi dechrau.

Roedd hen bont Llannerch wedi'i lleoli uwchben dyfrhaen dŵr croyw sydd rhwng 12 a 36 metr dan lefel y ddaear ac sy'n ymestyn bron cyn belled â Rhuthun. Yn defnyddio safonau modern, mae'n debygol y bydd sylfeini'r bont newydd yn ymestyn i lawr ac yn eithaf agos at y ddyfrhaen.

Mae gan Dŵr Cymru safle echdynnu dŵr croyw wrth ymyl lleoliad yr hen bont. Yn amlwg, mae hyn yn bryder iddyn nhw ac i ni, oherwydd bod y dŵr yn cael ei ddefnyddio i wasanaethu miloedd ar filoedd o aelwydydd ledled Gogledd Cymru.

Mae llawer o'r trafodaethau sydd wedi cael eu cynnal dros y 12 mis diwethaf wedi ymwneud â sicrhau bod unrhyw waith posibl i ddisodli'r bont yn bodloni safonau diogelwch modern, a sicrhau nad yw'n peri risg i'r cyflenwad dŵr croyw lleol. Mae Dŵr Cymru wedi bod yn gwneud eu gorau i weithio gyda ni ar y mater hwn ac rydym bellach wedi llunio cytundeb i weithio yn y cyffiniau i wneud gwaith ymchwilio. Y gobaith yw y bydd canlyniadau hyn yn rhoi sicrwydd i bawb y bydd gwaith adeiladu yn y dyfodol yn bosibl.

Bydd y gwaith hwn yn cynnwys arolygon Radar Treiddio Tir, sy'n defnyddio tonnau electromagnetig i ddarlunio haenau / dyfnderoedd gwahanol o dir, yn ogystal ag arolygon treiddio tir mwy traddodiadol a fydd yn cynnwys defnyddio polion i gymryd samplau craidd neu fesuriadau. Rydym hefyd yn gobeithio cytuno y bydd tyllau prawf yn ymarferol ar gyfer ymchwiliad pellach, er mwyn gallu cael cymaint o wybodaeth â phosibl.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Gwneud cais am ganiatâd adeiladu

Ar yr amod nad yw'r arolygon gwaith tir yn achosi unrhyw broblemau annisgwyl ychwanegol, bwriad y Cyngor yw dilyn y broses i gael caniatâd i adeiladu'r bont newydd.

Gwneud cais am gyllid i ddisodli'r bont

Gan dybio y gellir ceisio a chymeradwyo caniatâd am bont newydd, bydd y Cyngor wedyn mewn sefyllfa i archwilio a gwneud cais am opsiynau ariannu ar gyfer gwaith cyfalaf er mwyn cwblhau'r bont newydd. Eto, o ystyried yr hinsawdd ariannol bresennol, nid yw hyn yn gwbl sicr ond byddwn yn gweithio'n agos gyda phawb dan sylw i gyflwyno achos busnes cadarn.

A ellir cael y newyddlen drwy e-bost?

Os ydych wedi casglu copi papur o'r newyddlen hon ac y byddai'n well gennych dderbyn copïau o newyddlen Pont Llannerch yn electronig yn y dyfodol, anfonwch e-bost at: ymgysylltu.cyhoeddus@sirddinbych.gov.uk. Os ydych wedi derbyn newyddlenni Pont Llannerch dros e-bost o'r blaen, nid oes rhaid i chi gysylltu â ni eto i ofyn am gael newyddlenni yn y dyfodol. Byddwch ond angen cysylltu os ydych yn dymuno datdanysgrifio.

Sylwadau, ymholiadau a phryderon:

Drwy'r Post: Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol, Blwch Post 62, Rhuthun, LL15 9AZ

Dros e-bost: ymgysylltu.cyhoeddus@sirddinbych.gov.uk